# Y Dinesydd

Gorffennaf/Awst 2012 Rhif 369 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## CRICEDWR IFANC ADDAWOL

Llongyfarchiadau mawr i Tegid Philips, sy'n ddisgybl Blwyddyn 5 yn Ysgol Melin Gruffydd, ar gael ei ddewis i chwarae i dîm criced Cymru dan 11 yr haf yma.

Fe enillodd ei gap cyntaf yn ddiweddar yn erbyn Swydd Gaerloyw gan helpu Cymru i ennill gyda ffigurau bowlio o 8-2-10-2.

Mae Tegid, o Barc Cefn Mably, hefyd yn chwarae i dîm y sir, Caerdydd a'r Fro, ac wedi chwarae i dîm criced Clwb Caerdydd ers yn 6 oed.

Mae 20 gêm yn rhaglen tîm Cymru yr haf yma a'r nod, yn ôl yr hyfforddwr, Peter P. Davies, yw profi mai tîm dan 11 Cymru yw'r gorau ym Mhrydain! Felly mae llawer o ymarfer o flaen y bechgyn hyn, meddai, llawer o waith caled, ond llawer o hwyl a mwynhad hefyd.

Dymuniadau gorau i Tegid ac i'r tîm!



*Tegid a'i gap cyntaf v. Swydd Gaerloyw*

## YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO EDERN

Ar ddydd Llun, Gorffennaf 2il daeth staff newydd Ysgol Bro Edern at ei gilydd i gynnal gwersi pontio i ddisgyblion blwyddyn 6 ysgolion y dalgylch. Yn y wers Gymraeg cynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu adroddiad papur newydd byr rhwng grwpiau o ddisgyblion a dyma'r adroddiad buddugol:

### DRYSAU NEWYDD YN AGOR

Bydd ysgol newydd sbon yn agor ei drysau am y tro cyntaf ar y pumed o Fedi 2012, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern. Bydd 71 o ddisgyblion yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn symud i safle newydd ar Ffordd Llanederyn, Penylan, yn 2013, ond am y flwyddyn gyntaf bydd yr ysgol ar safle Ysgol Glantaf. Bydd nifer o ysgolion yn dod at ei gilydd: Bro Eirwg, y Berllan Deg, Pen y Pil, Pen-y-groes a rhai disgyblion o Ysgol Glan Morfa, Mynydd Bychan a'r Wern.

Dyma rhywun o ysgol y Berllan Deg yn dweud eu barn am yr ysgol: "Rydw i yn teimlo'n gyffrous iawn am ein bod ni am fod yn ddisgyblion cyntaf Bro Edern."

Bydd Mr Iwan Pritchard yn bennaeth ar yr ysgol a bydd Mr Alan Williams yn ddirprwy. Bydd wyth aelod arall o staff, sef Ms A Harries, Miss Ff Dafydd, Miss C A James, Mrs Ff Furci, Mr T Hancock, Mr D Roberts, Miss L Morris a Mrs E Rhisiart. Mae pawb yn gyffrous iawn!

***gan Bedwyr Hedd, Sami Hashem a Llew James***

Mae holl staff, disgyblion a rhieni Bro Edern yn edrych ymlaen at fis Medi. Bydd y staff yn cychwyn ar Fedi 3ydd a'r drysau yn agor i groesawu'r disgyblion ar Fedi'r 5ed.

## CÔR CAERDYDD YN DATHLU EI DREFTADAETH GERDDOROL

### RHYDDHAU CRYNO DDISG NEWYDD I NODI 20 MLYNEDD O GANU CORAWL YN Y BRIFDDINAS


Er mwyn dathlu 20 mlynedd ers ei sefydlu mae Côr Caerdydd, un o brif gorau cymysg y wlad, wedi rhyddhau ei gryno-ddisg newydd *O Gymru*. Mae'r CD yn ddetholiad o gyfansoddiadau gan gerddorion o Gymru o Ivor Novello i Karl Jenkins, o William Mathias i Paul Mealor, gan gynnwys cân newydd sbon gan Ieuan Wyn, aelod o'r côr – dyma adlewyrchiad o gyfoeth ein treftadaeth gorawl ar un gryno ddisg o bleser pur.

Yn ôl yr arweinydd, Gwawr Owen:

'Mae gennym gymaint o ddewis yng Nghymru - roedd yn anodd penderfynu ar beth i'w gynnwys a beth i'w adael oddi ar y CD, ond mi wn fod y Côr wedi mwynhau cael y cyfle i ddangos eu doniau ac i ganu amrywiaeth eang o gerddoriaeth.'

Mae gan y Côr gysylltiad agos iawn â Karl Jenkins, y cyfansoddwr o Benclawdd, sydd wedi gosod trefniant corawl newydd o *Tros y Garreg* ar eu cyfer, ynghyd â chyfeiliant hudolus Catrin Finch. Dyma'r tro cyntaf hefyd i waith Karl – i gyd-fynd â geiriau Grahame Davies –

*(Parhad ar dudalen 2)*



# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Eleri Melhuish**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Hefin Mathias**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi erbyn 27 Awst i:
13 Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AR
Ffôn: 02920 311340
hefinmathias@hotmail.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


# CÔR CAERDYDD YN DATHLU

*(Parhad o'r dudalen flaen)*

*Ysbrydoliaeth* gael ei recordio. Cyfansoddwyd y darn ar gyfer pumed penblwydd Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd – a phenblwydd Karl ei hun yn 65 mlwydd oed.



*Karl Jenkins yn derbyn copi o'r CD gan Gwawr Owen*

Doedd dim rhaid i'r Côr grwydro 'mhell o'u cartref yn y brifddinas am fedli o ganeuon Ivor Novello a drefnwyd gan Jeffrey Howard, sydd hefyd wedi trefnu gosodiad o'r emyn dôn *Arwelfa* ar y CD. Mae'r Côr yn arbennig o falch o gynnwys gwaith newydd sbon gan Ieuan Wyn, un o'i aelodau. Mae *Caerdydd* yn bortread cyfoes o'r brifddinas a'r newidiadau sydd wedi ei wynebu dros y blynyddoedd diwethaf.

Uchafbwynt arall ar y CD yw *She Walks in Beauty* gan Paul Mealor, sydd wedi ei amlygu ei hun mor llwyddiannus mewn digwyddiadau a darllediadau yn ystod y flwyddyn.

Ffurfiwyd y Côr yn 1992 i gystadlu yn Eisteddfod Aberystwyth, ac erbyn hyn maent wedi ennill deg gwaith yn y Brifwyl, wedi teithio yn eang ar gyfandir Ewrop, canu yn rhai o'r prif neuaddau cyngerdd gan gynnwys Neuadd Albert, Llundain, Neuadd Symffoni Birmingham, ac wrth gwrs Neuadd Dewi Sant, a darlledu droeon ar deledu a'r radio.

Yn ôl Gwawr:

'Mae'n braf i arwain grŵp o gantorion sydd mor frwdfrydig, ffyddlon a cherddorol. Mae'n deulu estynedig i'r rhan fwyaf ohonom, gyda sawl cenhedlaeth o'r un teulu yn parhau i ganu gyda ni. Rwy'n ddiolchgar i Tŷ Cerdd am gyd-weithio â ni ar y ddisg, ac yn gobeithio y bydd pobl yma yng Nghymru ac ar draws y byd yn mwynhau ein dehongliadau o'r cyfansoddiadau hyn sy'n adlewyrchiad o'r cyfoeth cerddorol – *O Gymru*'

Manylion pellach gan Catrin Mears, Ffôn: 07815 743505 neu Ebost: catrinllmears@gmail.com.

**(10 ffaith am Gôr Caerdydd ar dudalen 6)**

# Cyfarfod Blynyddol Y Dinesydd

Fe'i cynhaliwyd ar nos Fercher y 27 Mehefin yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, ac etholwyd y canlynol fel swyddogion Pwyllgor y Papur sef –

Cadeirydd: **Gwilym E. Roberts**;

Is-Gadeirydd: **Bryan James**;

Ysgrifennydd Cofnodion: **Nia Jones**;

Trysorydd – i'w benodi;

Swyddog Dosbarthu: **Huw Jones**;

Swyddog Hysbysebion: **Ceri Morgan**;

ac etholwyd **Robin Gruffydd** a **Falmai Griffiths** yn aelodau o'r Pwyllgor.

# Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Newyddion

**Cydymdeimlo â**

– Theulu y diweddar Myrddin Phillips, y Barri, a fu farw yn Ysbyty Llandochau ar y 18 Mai. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl, Y Barri, ar yr 31 Mai ac yna ym mynwent Capel Bethesda, Ty Croes, Rhydaman.

– Theulu y diweddar Robin Osborne Jones a fu farw'n ddisymwth yn ei gartref ar y 9 Mehefin. Bu'r angladd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar yr 22 Mehefin ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen.

– Theulu y diweddar Nansi Lloyd Williams, yr Eglwys Newydd, ond gynt o Lan Ffestiniog, a fu farw'n sydyn ar y 15 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar yr 28 Mehefin.

**Llongyfarchiadau i**

Aled Evans, gynt o Rhiwbeina, ar ei briodas â Helena Potts yng Nghapel y Methodistiaid 'yn Cosstessy, Norwich, ar yr 14 Ebrill. Mae Aled yn fferyllydd yn Norwich a'i wraig yn gweithio yn y byd meddygol.

– Dr Christine James, yr Eglwys Newydd, ar gael ei henwi yn olynydd i T. James Jones fel Archdderwydd Cymru. Bydd hi'n ymgymryd â'i dyletswyddau fel Archdderwydd yn Eisteddfod Dinbych 2013.

**Myfyriwr Prifysgol Caerdydd yn Ennill y Fedal Gyfansoddi**

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Clark, Prestatyn, sy'n fyfyriwr 21 oed ym Mhrifysgol Caerdydd ar ennill Medal Gerdd Eisteddfod yr Urdd am ei gyfansoddiad ar gyfer clarinet a thelyn. Cafwyd canmoliaeth uchel gan y beirniad, Gareth Glyn, i waith yr enillydd a rhagwelai yrfa gerddorol ddisglair i Aled Wyn.

**Coron Eisteddfod yr Urdd yn dod i Gaerdydd**

Llongyfarchiadau i Anni Llŷn o Aelwyd y Waun Ddyfal, Caerdydd, ond gynt o Sarn Mellteyrn ym Mhenrhyn Llŷn, ar ennill Coron yr Eisteddfod am ysgrifennu rhyddiaith ar y testun 'Egin'. Graddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a bellach mae hi'n cyflwyno rhaglen blant o'r enw 'Stwnsh' ar S4C.

**Llwyddiant i ŵr o Ben-bre**

Gary Griffiths, gynt o Ben-bre, Sir Gaerfyrddin, fydd cynrychiolydd Cymru yng Nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd a gynhelir yn Neuadd Dewi Sant dros y cyfnod 16-23 Mehefin yn 2013. Roedd pedwar ymgeisydd yn perfformio o flaen panel o feirniaid am yr anrhydedd o gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth a dyfarnwyd Gary Griffiths yn deilwng a derbyniodd ddwy fil o bunnoedd a Thlws yn wobrau. Llongyfarchiadau a phob lwc iddo yn ei yrfa a'r gystadleuaeth yn 2013.

**Gwobr deilwng i'r Coleg Cerdd a Drama**

Dyfarnwyd gwobr Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain i'r adeilad newydd yn y Coleg Cerdd a Drama ar Heol y Gogledd, ac fe'i hystyrir yn enghraifft wych o bensaernïaeth ym Mhrydain. Gorffennwyd y gwaith ar yr adeilad newydd nôl ym Mehefin 2011 ar gost o dros bymtheg miliwn.

**Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymraeg Rhiwbeina**

Fe'i cynhaliwyd ar nos Lun, y 18 Mehefin ac etholwyd Falmai Griffiths yn Gadeirydd; Lona Roberts a Beryl Thomas yn Gyd-ysgrifenyddion a Gwyneth Jennings yn Drysorydd. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Rhys Evans, awdur Cofiant i Gwynfor Evans, wedi'r cyfarfod busnes.

**Bore Coffi at gronfa Hosbis Tŷ Hafan, y Sili**

Cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina fore coffi er budd eu helusen eleni, sef Hosbis Tŷ Hafan ar y 23 Mehefin yn festri Capel Bethany, Heol Llanisien Fach, a chodwyd £250.

# Cymorth Hafan

Mae Ymddiriedolaeth Gofal Hafan yn amcanu i 'gefnogi'r rhai sydd mewn angen yng Nghaerdydd.' Elusen Gristnogol yw hi, ac mae'n ymrwymedig i weithio er lles pawb, beth bynnag fo'u hoedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd neu allu. Mae tîm gweithgar o ymddiriedolwyr a staff yn cefnogi'r gwaith, a chafodd un o'u plith, Mrs Eleanor Sanders, ei phenodi'n gynghorwr annibynnol yn yr etholiadau lleol diweddar.

Yn dilyn dadansoddiad o anghenion yr ardal a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu eisoes, penderfynodd yr elusen ganolbwyntio, ar hyn o bryd, ar ddarparu gwasanaethau i'r bobl hŷn yn y gymuned ynghyd â'u gofalwyr. Gwneir hynny drwy gyfrwng 'Cymorth Hafan – Gwasanaeth Cymorth Cartref'. Rhoddir help llaw ymarferol a chefnogaeth gymdeithasol, gan alluogi pobl hŷn i ddal ati i fyw'n ddiogel ac mor annibynnol ag sy'n bosibl yn eu cartrefi eu hunain.

I ddechrau, gwasanaeth ar gyfer gogledd Caerdydd oedd hwn ond, gan ymateb i'r galw sylweddol, erbyn hyn gwasanaethir y ddinas gyfan. Gwasanaeth hyblyg yw e sy'n parchu natur ac anghenion pob achos unigol. Mae'r bobl hŷn, neu eu gofalwyr, yn parhau i reoli'r math o gefnogaeth a roddir ynghyd â hyd y gefnogaeth honno.

Mae rhai o'r staff gofal yn siaradwyr Cymraeg, ac maen nhw wrth eu bodd yn rhoi'r gwasanaeth drwy gyfrwng eu hiaith gyntaf. Hoffai'r elusen ddatblygu'r wedd hon i'w gwasanaeth, ac felly mae eu taflen ar gael bellach yn y Gymraeg ac wedi'i dosbarthu i lawer o gapeli a chymdeithasau Cymraeg yng nghylch Caerdydd.

Os teimlwch yr hoffech fod yn rhan o'r math hwn o waith, neu os teimlwch y gallai Cymorth Hafan eich cefnogi chi, ffoniwch 029 20617009 neu e-bostiwch info@havenhomecare.org

*Gwen Emyr*

# *Beth mae eich babi'n dweud wrthych chi?*

Mae'n broblem mae pob rhiant newydd yn wynebu – baban bach yn llefain a'r rhieni'n gofidio wrth iddynt geisio dyfalu beth mae eisiau. Dyna pam mae rhieni ar hyd a lled Prydain yn troi at wersi arwyddo babanod *TinyTalk* i ddechrau cyfathrebu gyda'u plant, cyn iddynt fedru siarad.


O oed ifanc, gall plant ddeall llawer mwy na maent yn medru cyfathrebu. Rhwng yr oedran o 6-9 mis mae babanod yn dechrau cysylltu geiriau at wrthrychau, ond nid yw eu cegau, tafodau na chordiau lleisiol wedi datblygu digon iddynt fedru siarad, a chael eu deall, tan eu bod tua 12-18 mis oed. Dyma pryd gall plant a rhieni deimlo eu bod yn cael eu rhwystro wrth iddynt geisio deall ei gilydd, a gall hyn arwain at stranciau gan achosi gofid i'r rhieni a'r plant.

Rydym yn defnyddio ystum fel rhan naturiol o iaith yn barod. Trwy adeiladu ar hyn a dysgu rhai arwyddion syml mae babanod mor ifanc â 6-9 mis oed yn medru dechrau mynegi beth maent eisiau, neu rannu eu cyffro at weld hwyaid yn y parc! Mae rhai rhieni yn poeni bydd defnyddio iaith arwydd yn arafu datblygiad iaith eu plentyn. Nid yw hyn yn wir ac yn aml y gwrthwyneb sy'n wir. Mae'n bwysig dweud y gair tra arwyddo er mwyn i'r plentyn wneud y cysylltiad rhwng y gwrthrych, yr arwydd â'r gair.

Mae arwyddo yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd dwyieithog, gan roi cysylltiad gweledol rhwng geiriau yn y ddwy iaith lafar. Gall arwyddo gyda *TinyTalk* helpu i pontio'r bwlch rhwng deall a gallu cyfathrebu, gan roi cyfle i'r plentyn ddatblygu sgiliau cyfathrebu'n gynnar a rhoi iddo y blociau adeiladu i strwythuro ei iaith lafar ddatblygedig.

Meddai Eluned Winney, athrawes *TinyTalk* ym Mhen-y-bont â'r Bontfaen, "'Roedd arwyddo gyda Catrin yn syndod i ni fel teulu – dechreuodd arwyddo geiriau syml, fel 'llaeth' a 'bwyd' yn 6 mis oed, ac erbyn iddi gyrraedd ei flwydd a hanner roedd ganddi dros gant o arwyddion yr oedd hi'n medru cyfathrebu gyda ni, a thros 500 o eiriau yr oedd yn medru dweud, boed yn y Gymraeg, Saesneg neu BSL. Nawr mae Ffion (8 mis oed) yn arwyddo hefyd, ac mae'r cyffro o'i gweld yn dechrau cyfathrebu gyda ni yn ein taro eto o'r newydd. 'Rwy'n teimlo mor lwcus cael y cyfle i ddysgu a rhannu arwyddo babanod efo teuluoedd eraill."

Yn newydd sbon ym mis Medi, bydd *TinyTalk* yn cynnig gwersi arwyddo babanod trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf, ym Mhendeulwyn, ar gyrion Caerdydd, ar foreau Gwener. Dyma gyfle i deuluoedd Cymraeg ddysgu sut i arwyddo gyda'u babanod, trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ganu caneuon Cymraeg a mwynhau amser cymdeithasol



*Catrin yn arwyddo 'clywed'*

wedi'r wers a sgwrsio gyda theuluoedd Cymraeg eraill.

Meddai'r athrawes, Eluned Winney, "Pan ddechreuais i ddysgu arwyddo babanod gyda *TinyTalk* roeddwn yn benderfynol yn fy mwriad o gynnig y gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd." "'Rwy'n magu fy mhlant yn ddwyieithog ond mae'r byd o'u gwmpas yn uniaith Saesneg, a chan fod fy rhieni yn byw yng Ngogledd Cymru rwy'n teimlo nad yw fy merched yn cael digon o gyfle i glywed Cymraeg yn cael ei ddefnyddio o'u gwmpas. Rwy'n gobeithio bydd cynnig y gwersi Cymraeg yn rhoi cyfle i blant bach glywed eu mamiaith yn cael ei defnyddio yn naturiol y tu allan i'r teulu, yn ogystal â chael hwyl trwy ganu a dysgu cyfathrebu trwy arwyddo, a bydd hefyd yn rhoi cyfle i'w rhieni gwrdd â chymdeithasu efo teuluoedd ifanc Cymraeg arall hefyd."

Am fwy o wybodaeth am ddosbarthiadau *TinyTalk* i fabanod neu blant bach yn eich ardal chi, neu am fanylion ynglŷn â hyfforddiant meithrinfeydd, gweler y wefan www.tinytalk.co.uk. Os hoffech fanylion am wersi *TinyTalk* Cymraeg, cysylltwch ag Eluned Winney ar elunedw@tinytalk.co.uk, gweler ei wefan www.tinytalk.co.uk/elunedw, neu ei thudalen facebook www.facebook.com/TinyTalkCymraeg, neu ffoniwch 07877 566935.

**Eluned Winney**

# Colofn G.R.

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai prysur rhwng ymweliad y Ffagl Olympaidd â Chymru, dathlu Jiwbilî'r Frenhines a chynnal Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon ger Caernarfon. Ar ben hynny bu'r tywydd yn destun siarad, yn arbennig pan gafwyd y llifogydd erchyll yn ardal Aberystwyth sy wedi peri cymaint o ofid a thorcalon i'r trigolion.

Diau, onibai am y tywydd anffafriol adeg Eisteddfod yr Urdd, byddai dros gan mil o bobl wedi ymweld â'r maes ond fel yr oedd hi daeth dros naw deg mil o bobl iddi i fwynhau gwledd o gystadlu brwd o safon uchel ar hyd yr wythnos. Arhosais i gartref eleni a threulio oriau bob dydd o flaen fy set deledu yn mwynhau'r arlwy!

Un o'r uchafbwyntiau i mi yn bersonol oedd perfformiad gwefreiddiol Charlie Lovell-Jones, disgybl 13 oed yn Ysgol Glantaf yn ennill ar y gystadleuaeth ffidil. Sôn am ddawn ac yn sicr bydd hwn yn amlygu ei hun ar lwyfannau'r genedl yn ystod y blynyddoedd nesaf. Llongyfarchiadau iddo fo a phawb arall a ymddangosodd ar lwyfan yr Eisteddfod. Braf oedd gweld bod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc y broydd hyn yn enillwyr yn yr Ŵyl.

Yr wythnos ar ôl yr Eisteddfod on i ar fy ffordd i Ogledd Cymru i ardal Llanberis hefo aelodau o Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ar daith haf y Gymdeithas. Cawson ni aros yng Ngwesty'r Fictoria ym mhentref Llanberis a thu ôl i'r gwesty mae Castell Dolbadarn sy'n sefyll ar boncath, ac oddi yno ceir golygfeydd hyfryd o lynnoedd Padarn a Peris. Cafwyd croeso Cymreig yn y gwesty gan fod y rhan fwyaf o'r staff yn medru'r iaith. Roedd dylanwad ymweliad Eisteddfod yr Urdd â'r ardal yn dal yn amlwg gan fod baneri coch, gwyrdd a gwyn a baneri'r Ddraig Goch yn dal i harddu'r Fro, hyd yn oed yn nhre Frenhinol Caernarfon!

Os mai uchafbwynt yr Eisteddfod i mi oedd perfformiad Charlie Lovell-Jones wel, uchafbwynt y daith ei hunan oedd mynd i grombil y mynydd ar lan Llyn Peris i ymweld â Chynllun Trydan Dŵr Dinorwig. Costiodd y cynllun filiynau o bunnoedd ond eisoes mae'r cynllun yn talu ar ei ganfed! Anhygoel ac anodd mynegi mewn geiriau y profiad o sefyll yn y twneli anferth a synnu a rhyfeddu at ddyfeisgarwch dyn yn gallu creu y fath le. Naw wfft i'r pla o felinau gwynt sy'n anharddu cymaint o'r wlad bellach. Beth sydd eisiau ydy cynlluniau eraill tebyg i'r un yn Llanberis er mwyn cadw harddwch ein gwlad yn ddilychwin.

Mae'r daith rhwng De a Gogledd y wlad yn gwella hefo'r ffyrdd osgoi a'r rhai diweddaraf ydy'r un ar ôl gadael Llanelwedd a'r llall sy'n osgoi tre Porthmadog. Maen nhw wrthi ar hyn o bryd yn gwella'r ffordd rhwng tafarn y "Cross Foxes" a thre Dolgellau sydd eisoes hefo ffordd osgoi. Ond er y gwelliantau mae llawer o waith ar ôl i'w gyflawni cyn bydd rhwydwaith o ffyrdd modern ar gael i hwyluso'r teithio i wahanol rannau o'r wlad.

Gwyliau hapus i bawb gan obeithio bydd llawer o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' yn anelu am faes Eisteddfod Bro Morgannwg ar ddechrau Awst, a phob llwyddiant i bawb o'r broydd hyn fydd yn cystadlu yn Llandŵ.

# *Ceisiadau hwyr yn cynyddu'r niferoedd am addysg Gymraeg fis Medi*

Mae'r sir wedi cyhoeddi'r niferoedd sydd wedi cael lle yn ysgolion Cymraeg cynradd y ddinas erbyn dechrau'r tymor newydd, sef 686, dim ond 29 yn fwy na chyfanswm y llynedd a chynnydd o dan 5%. Mae hyn yn ddigon i lenwi pob ysgol yn y ddinas ac eithrio ysgolion y Wern (sy'n derbyn 90 yn lle 60 ac felly â 14 lle gwag), Penygroes (10 lle gwag) a Glan Ceubal (21 lle gwag).

OND mae 20 plentyn o hyd yn disgwyl lle wedi gwrthod lle iddynt yn eu dewis cyntaf. Er tegwch i'r sir, o'r 20 mae 11 wedi gwneud cais yn ddiweddar iawn yn ôl arfer anffodus rhai rhieni yn Nhrelai (5) a Chaerau (6) lle mae'r ysgolion (Coed-y-gof a Nant Caerau) yn llawn. Efallai y bydd y sir yn cynnig lle yng Nglan Ceubal ond mae hon braidd yn bell i ffwrdd a mae RhAG yn pwyso i greu dosbarth arall yng Nghoed-y-gof i'w leoli yn Ysgol Babyddol Holy Family lle mae ystafelloedd gweigion.

Mae'r naw plentyn arall naill ai yn ystyried cynigion am le mewn ysgol arall neu yn disgwyl gwrandawiad apêl pryd mae hawl gan y Panel Apêl i ganiatáu mynediad sy'n mynd â'r rhif mewn dosbarth uwchben y 30 sy'n statudol e.e. am nad oes lle mewn ysgol Gymraeg gyfagos fel sy'n wir am 3 phlentyn.

Fe all fod cyfanswm y mynediadau yn torri trwy y ffigwr o 700 sy wedi bod yn nod ers rhai blynyddoedd, ac ar ddechrau'r cyfnod yn golygu mynd dros yr 20% o holl blant yr un oedran. Ond ers 3 blynedd mae'r cyfanswm cyffredinol wedi cynyddu i 3800/3900 sy'n golygu bod angen mwy na 700 i ddechrau addysg Gymraeg i gyrraedd nod yr 20%. Ond yn sicr byddai cyrraedd 700 yn golygu na fydd y ddarpariaeth bresennol yn ddigon i gwrdd â'r angen dros y ddinas yn 2013. Ar hyn o bryd yr unig gynnydd sydd wedi'i baratoi yw codi'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol Treganna lle bydd 3 ffrwd ond mae angen ystafelloedd ychwanegol hefyd yn y dwyrain (Bro Eirwg, Pen-y-pil a Glanmorfa yn orlawn) ac yn y gorllewin (Coed-y-gof, Nant Caerau, Gwaelod-y-garth a'r Creigiau yn orlawn) a'r 7 ysgol yn rhy bell o ysgolion eraill â lle ynddynt i dderbyn eu gorlif. Mae RhAG yn barod yn pwyso am ddarpariaeth ychwanegol oddi wrth y swyddogion a'r aelod Cabinet newydd, y Cynghorydd Julia Magill, yn ffodus gyda chefnogaeth adran addysg Llywodraeth Cymru o dan Leighton Andrews.

***Michael Jones***

# Ôl-Lwybrau

## Glyn Tudwal Jones

Pan oeddwn yn fyfyriwr ym mhrifysgol Bangor rwy'n cofio Brinley Rees yn gosod traethawd i ni oedd yn dilyn cwrs gradd yn y Gymraeg, a'r testun oedd, 'Pwy yw'r Cymro/Cymraes?' Gwnaeth hynny imi feddwl llawer, ac y mae fy ateb i'r cwestiwn wedi newid droeon dros y blynyddoedd.

Cefais fy magu yn Hen Golwyn, ac roedd bod yn Gymro ifanc yn yr ardal honno ar y pryd yn golygu adweithio yn erbyn y llifeiriant Seisnig oedd yn bygwth ein boddi. Pobl wedi ymddeol o Fanceinion a Lerpwl fyddai'n dylifo i arfordir y gogledd, a dim syniad ganddynt am y Gymraeg na Chymreictod. Credent mai tafodiaith o'r Saesneg oedd y Gymraeg: wedi'r cwbl, roedd yna dafodiaith arbennig yn sir Efrog, Geordie yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, Cockney yn Llundain, ac felly'r Gymraeg yng Nghymru! Dyna a barodd i lawer ohonom wrthryfela; hanfod bod yn Gymro oedd adweithio a brwydro.

Symud ymlaen wedyn i Fangor a boddi mewn môr o Gymreictod y tro hwn, gan ymhyfrydu am y tro cyntaf yn y ffaith bod modd byw bywyd yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn nes ymlaen bûm yn weinidog yn Nyffryn Clwyd cyn dychwelyd i Fangor, yn weinidog (parchus?) y tro hwn, a thrwy'r cyfan fe gadarnhawyd ynof yr argyhoeddiad na ellir bod yn Gymro neu'n Gymraes heb yr iaith.

Un mlynedd ar ddeg yn ôl dyma ddod i Gaerdydd, a dechrau adnabod y de-ddwyrain. Yma deuthum ar draws pobl oedd wedi colli'r iaith, ac eto yn eu cyfrif eu hunain yn Gymry pybyr, a chyfraniad rhai ohonynt i fywyd Cymru'n enfawr ym myd chwaraeon, busnes, ac, wrth gwrs, addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a llawer ohonynt yn awyddus i'w plant gael rhywbeth na chawsant hwy mohono. Mae yna sawl ateb gwahanol i'r cwestiwn hwnnw a osodwyd imi flynyddoedd yn ôl, ac mae symud i'r ardal hon wedi bod yn agoriad llygad imi, ac wedi peri imi feddwl eto yn ei gylch.

# COLOFNYDD Y MIS

## Efa Gruffudd Jones

Mae cysylltiad yr Urdd â Chaerdydd yn mynd yn ôl yn bell. Ym mlwyddyn dathlu pen-blwydd yr Urdd yn 90 mae'n ddiddorol cofio am rhai o'r cysylltiadau hynny. A wyddech chi fod bron i 100 o aelodau gan yr Urdd yn Ysgol Uwchradd Cathays yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf, a bod Elvet Thomas wedi ysbrydoli Bobi Jones, E G Millward ac eraill i ddod yn siaradwyr rhugl. Cynhaliwyd mabolgampau'r Urdd ym Mharc yr Arfau ar 4 Gorffennaf 1936, gyda gorymdaith drwy Gaerdydd cyn hynny. Bu taith gyfnewid rhwng aelodau'r Urdd yng Nghaerdydd a Phenygroes ym 1948. Bydd rhai ohonoch yn cofio bwrlwm arbennig y chwedegau, brwdfrydedd Gwilym Roberts, a phrynu Canolfan i'r Urdd yn Heol Conwy.

Ers hynny bu llawer o newid. Bydd yr Urdd eleni yn cynnal Gemau Cymru – gŵyl aml-chwaraeon cenedlaethol - i 1,500 o bobl ifanc yng Nghaerdydd rhwng 13 a 15 Gorffennaf.

Bydd Cwmni Theatr Cenedlaethol yr Urdd yn perfformio *'Sneb yn Becso Dam* yn y Sherman ar 13 Gorffennaf. Cafodd un o Adrannau mwyaf newydd yr Urdd, Adran Salem, Caerdydd, lwyddiant yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf eleni. Bydd Aelodau'r Urdd o Gaerdydd yn mynd ar daith gyfnewid i Batagonia ym mis Hydref eleni.

Galluogodd gwerthiant Heol Conwy i'r Urdd gael gwersyll oddi fewn i Ganolfan Mileniwm Cymru, gyda phlant yn cyfarfod yn wythnosol i ddatblygu eu sgiliau drama, a miloedd yn dod o bob rhan o Gymru i aros yn flynyddol. Mae gan yr Urdd a Menter Caerdydd bartneriaeth lwyddiannus sy'n cynnig cyfleoedd gwych i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau. Serch yr holl weithgaredd, mae'r sialens o roi cyfleoedd cyffrous i blant a phobl ifanc siarad y Gymraeg yn parhau. Felly hefyd y sialens o sicrhau eu bod yn dymuno siarad yr iaith. Digon i'w wneud am y naw deg mlynedd nesaf felly!

## 10 ffaith am Gôr Caerdydd

1. Dim ond **1** arweinydd parhaol – Gwawr Owen – a fu gan y Côr ers ei sefydlu yn 1992
2. Cyhoeddir yr **2**ail CD i ddathlu penblwydd y Côr yn 20 oed eleni
3. Bydd y Côr yn canu o dan arweiniad Karl Jenkins mewn perfformiadau o'i waith newydd *Peacemakers* **3** gwaith eleni
4. Mae Côr Caerdydd yn ymddangos yn rheolaidd ar S**4**C – o *Noson Lawen* i *Dechrau Canu*
5. Cyrhaeddodd y Côr frig y siartiau clasurol yn 200**5** ar recordiad o waith Karl Jenkins – *Requiem*
6. Mae gan y Côr **6**5 o aelodau
7. Ymysg aelodau Côr Caerdydd mae **7** Rhian!
8. Mae'r Côr yn ymarfer am **8**.00pm bob nos Fercher
9. Un o uchafbwyntiau gyrfa'r Côr oedd canu Symffoni **9** Beethoven gyda Bryn Terfel
10. Mae Côr Caerdydd wedi ennill **10** gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol

# YSGOLION

## Ysgol Melin Gruffydd

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Barti Deulais yr ysgol a lwyddodd i gyrraedd llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol a chipio'r drydedd wobr. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon a'r plant am y gwaith caled a'r ymroddiad.



*Y Parti Deulais*

**Tafwyl**

Cafwyd prynhawn hyfryd yn y Tafwyl eleni a'r Côr Bach o ddisgyblion blynyddoedd 2 a 3 yn perfformio cyfres o ganeuon. Cafwyd perfformiad hyfryd gennych ac roeddech i gyd yn edrych fel petasech chi wrth eich boddau ar lwyfan yr Ŵyl. Diweddglo da i flwyddyn o waith caled! Da iawn chi!



*Côr Bach Tafwyl*

**Gŵyl yr Eglwys Newydd**

Fel rhan o ddathliadau Gŵyl yr Eglwys Newydd gwahoddwyd Côr o ddisgyblion Blwyddyn 2 i berfformio. Cafwyd perfformiad gwych ganddynt, a hyfryd oedd gweld y llwyfan mor llawn o blant oedd yn gwneud eu gorau glas a chanu gyda'u holl egni! Hyfryd iawn Blwyddyn 2!

**Chwaraeon**

Ymfalchïwn yn llwyddiant Tegid Phillips ar y maes criced - gweler y dudalen flaen.

## Ysgol Pwll Coch

**Llwyddiant yn y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth**

Llongyfarchiadau gwresog i dîm Blwyddyn 3 a 4 ar ei lwyddiant yn y Cwis Llyfrau yn Aberystwyth. Fe ddaethon nhw gyda'u cyflwyniad bywiog o 'Sam, y Capten a'r Siarc Od' yn ail. Aelodau'r tîm oedd - Beca Rhys Evans, Daniel Hawes, Greta Evans, Martha Llwyd, Jac Morgan, Jada Jama, Chantae Davies, Cian Hughes, Izabella Ambrose ac Iwan Johnes.



*Tîm y Cwis Llyfrau*

**Ail Faner Werdd**

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi ennill ein hail faner werdd ym mhrosiect Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus. Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn o fonitro ein defnydd o drydan a cheir a sefydlu partneriaethau gyda busnesau lleol. Llongyfarchiadau, Pwyllgor Eco!

**Codi arian at achosion da**

Ar y 9fed o Fai, dathlodd ein hysgol Ddiwrnod Angel i godi arian at Apêl Arch Noa, Ysbyty'r Plant yn y Mynydd Bychan. Yn ystod y tymor cafodd Angel Ash-Hanratty o Flwyddyn 6 lawdriniaeth lwyddiannus yn yr ysbyty. Trwy wisgo fel angylion neu ddillad glas, sef hoff liw Angel, codwyd £300 i'r ysbyty. Dal ati i wella, Angel.

Ddydd Gwener yr 22ain o Fehefin trefnodd y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco ddiwrnod i godi arian at bobl Ceredigion a ddioddefodd yn y llifogydd erchyll. Gwisgodd pawb het wirion a chodwyd £350.

**Ysgol Chwaraeon y Flwyddyn**

Enwyd Ysgol Pwll Coch yn 'Ysgol Chwaraeon y Flwyddyn'. Yn ôl *Sport Cardiff* roedd yr ysgol yn llwyddiannus oherwydd yr holl gyfleoedd mae'r plant wedi cael yn ystod y flwyddyn. Mae gan yr ysgol glybiau chwaraeon sy'n cael eu cynnal yn wythnosol, gan gynnwys tenis, hoci, pêl-rwyd, rhedeg ac ymarfer cylched, rygbi a phêl-droed. Yn ogystal â hyn, cafodd y plant gyfleoedd i fynd ar dripiau i Stadiwm Dinas Caerdydd, chwarae tenis yng Nghanolfan David Lloyd a mynd i weld gêm goffa Gary Speed.

**Cân Actol**

Llongyfarchiadau mawr i'r Gân Actol am ddod yn ail yn yr Eisteddfod yn Eryri. Gwych! Hoffa'r plant ddiolch yn fawr i Anwen Jones ac Anwen Carlisle am eu hyfforddi ac i Buddug Jones-Cole am gyfeilio.

## Ysgol y Wern

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri 2012**

Ar ôl teithio ymhell i fyny i Ogledd Cymru braf oedd cael llwyddiant yn yr Eisteddfod eleni. Ar y Dydd Llun daeth yr Ensemble Offerynnol o dan 12 oed yn gyntaf, a oedd yn cynnwys tri o blant Blwyddyn 5, sef Ismay Evans ar y ffliwt, Eirlys Lovell Jones ar y soddgrwth a Dafydd Chapman ar y piano. Yna aeth Dafydd ymlaen i ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Unawd Piano o dan 12 oed. Daeth Grŵp Pop yr ysgol yn 3ydd a oedd yn cynnwys bechgyn o Flwyddyn 5 a 6 – Daniel Thomas (llais), Harri Hayes (llais), Steffan Dawe (drymiau), Aled Evans (trwmped), Steffan Long (gitâr fâs) Gruffydd Williams (allweddellau). Yn ogystal â hyn daeth y gerddorfa yn 3ydd yn y gystadleuaeth Band/Cerddorfa o dan 12 oed. Diolch i bawb a wnaeth gynrychioli'r ysgol ac i bawb am eu cefnogaeth.



*Llun o'r Ensemble*



*Dafydd Chapman*

## Eisteddfod Ryngwladol Llangollen – Newidiadau Mentrus 2013

Mae newidiadau newydd cyffrous yn cael eu cyflwyno i gystadlaethau'r Eisteddfod yn 2013 fel a ganlyn:

- Chwilir am 40 o gorau i gystadlu am dlws cydnabyddedig Pavarotti yng nghystadleuaeth fawr Côr y Byd. Bydd cystadleuwyr o bob cwr o'r byd yn cael eu denu gan £5,000, un o'r gwobrwyon ariannol mwyaf sy'n cael ei gynnig gan unrhyw ŵyl gorawl gystadleuol. Wyth côr o'r categorïau Côr Cymysg, Côr Ieuenctid, Côr Siambr a Chorau Dynion a Merched fydd yn cael y cyfle i ddechrau'r ŵyl i gystadlu yng nghystadleuaeth Côr y Byd.
- Cyflwynir gwobr arbennig i'r Corau Ieuenctid.
- Cyflwynir tlws Côr y Plant y Byd gyda gwobr ariannol o £500 i'r côr sy'n casglu'r mwyaf o bwyntiau.
- Cyflwynir cystadleuaeth newydd Côr Gwerin Ieuenctid i bobl ifanc o dan 18 oed.
- Dechreuir chwilio am Lais y Dyfodol, a rhoir gwobr o £2,000 i ddatblygu gyrfa unawdydd newydd dan 35 oed. Gwahoddir yr enillydd i berfformio yn un o gyngherddau'r Eisteddfod yn y dyfodol.
- Cyflwynir gwobr newydd Cyfarwyddwr Cerdd yr Eisteddfod i'r perfformiad gorau o waith cyfansoddwr sy'n fyw heddiw, a bydd tlws a gwobr ariannol o £250 i'r arweinydd mwyaf ysbrydoledig.
- Chwilir am Ensemble Gwerin Draddodiadol gorau o 10 llais neu lai i berfformio rhaglen o gerddoriaeth sy'n cynrychioli eu rhanbarth neu eu traddodiad.
- Codir tâl ymgeisio o £80 ar bob grŵp fydd yn cystadlu ond ni chodir tâl ar yr ymgeiswyr unigol, a rhoir cyfle i grwpiau sydd ddim yn cystadlu berfformio yn yr Eisteddfod ar gost o £50.

Am yr holl fanylion gweler gwefan yr Eisteddfod www.international-eisteddfod.co.uk o 16 Mehefin eleni ymlaen.

## Bore Coffi Cymdeithas y Beibl

Ar fore glawog ddechrau Mehefin tra bo sylw dilynwyr rygbi ar y gêm yn Awstralia, i gapel y Crwys, ar Heol Richmond, y daeth sawl un i hybu'r ymdrech ddiweddaraf i godi arian at waith Cymdeithas y Beibl. Mewn cotiau glaw, bu prynu brwd ar deisennau a phlanhigion a gyfrannodd cefnogwyr. Roedd un o aelodau Eglwys Dewi Sant wedi dod ag enghreifftiau o flodyn dahlia i'w gwerthu, pob un yn cario'i enw a'i liw. Bu Gwyneth ddim yn hir cyn dod o hyd i berchennog. Gwnaed elw o dros £350. Diolch i'r Parchedig Alun Tudur, Ebeneser, am y llun.

***Lona Roberts***



*Cyfeillion yn y Bore Coffi*

# Taith Haf Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Y llynedd trefnwyd y daith haf gyntaf yn hanes y Gymdeithas gan y Cadeirydd Falmai Griffiths ac aeth yr aelodau i ardal Llangollen am bedwar diwrnod. Eleni trefnwyd yr ail daith gan Ann Brain, aelod o Bwyllgor y Gymdeithas, a'r tro hwn aethpwyd i ardal Llanberis ac aeth popeth fel wats fel yn hanes y daith gyntaf! Cychwynnwyd o Riwbeina ar fore Llun yr 11eg o Fehefin a dychwelwyd ar ddydd Iau y 14eg. Buom yn aros yng Ngwesty'r Fictoria yn Llanberis a chafwyd croeso hyfryd ganddyn nhw.

Ar y ffordd i Lanberis galwyd yn Y Llew Coch yn Ninas Mawddwy am fyrbryd ac yn wir paratowyd gwledd gan y perchnogion sy'n Gymry Cymraeg. Yna, aethpwyd ymlaen i Drawsfynydd gyda'r bwriad o ymweld â'r 'Ysgwrn', sef cartref y bardd Hedd Wyn, ar ôl galw yng Nghanolfan Treftadaeth Llys Ednowain, ond dryswyd y trefniant gan fod y ffordd yn rhy gul i'r bws a bu'n rhaid ffonio Gerald Williams, nai y bardd, i ddod i gyfarfod â ni ar y bws!

Oddi yno aethpwyd i bentref Beddgelert i ymweld â bedd y bardd Syr T.H. Parry Williams ym mynwent yr eglwys. Tra 'roedden ni yno aeth lori hir i drybini wrth geisio dod dros y bont gul ac ofnwyd y byddai oedi cyn byddai ein bws yn gallu croesi'r bont i fynd i Ben y Pas a lawr i Lanberis.

Roedd rhaglen y daith yn llawn ac amrywiol, a bore Mawrth aethpwyd i faes parcio siop enwog James Pringle ym mhentre Llanfairpwll i dynnu llun ar gyfer Y Dinesydd, cyn mynd i Oriel Môn yn Llangefni ac ymlaen wedyn i dreulio orig braf yn nhre Biwmares. Nôl wedyn i ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis cyn mynd ar daith ar y trên bach ar hyd ymyl Llyn Padarn ac edmygu'r golygfeydd hyfryd o'r Wyddfa, Castell Dolbadarn, ac olion y diwydiant llechi ar y llethrau.

Un o uchelfannau'r daith oedd ymweld â'r Cynllun Trydan Dŵr yn Ninorwig, ac aethpwyd â ni i grombil y mynydd i weld y peiriannau a'r twnelau anferth mewn bws arbennig. Mae pennill Cymraeg yn sôn am saith rhyfeddod Cymru, wel, ar ôl gweld y cynllun hwn rhaid ychwanegu un arall at y rhestr!




Ymlaen wedyn i Gonwy gan obeithio mwynhau orig ddifyr yno ond och, daeth y glaw i ddrysu'r cynllun a gadawyd oddi yno fel hwyaid! Aethom i dre Llanrwst wedyn er mwyn cyfarfod â chyn athro hanes o'r enw Eryl Owain a fu'n ein tywys o gwmpas Eglwys Sant Grwst a Chapel Gwydir lle mae arch garreg Llywelyn Fawr.

Ar ôl swper y noson honno daeth Arwel, un o'r grŵp poblogaidd 'Hogia'r Wyddfa' atom i hel atgofion am eu hanes yn teithio dros gyfnod o hanner can mlynedd.

Roedd ein taith bron ar ben, ac ar ôl ffarwelio â Llanberis ar fore Iau anelwyd am dre Caernarfon i dreulio orig yn yr haul yno! Do, gwelwyd yr haul o dro i dro yn ystod y pedwar diwrnod! Wedyn, cyn troi am y De ymwelwyd â Chanolfan Dreftadaeth Dr. Kate Roberts yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan, ger Caernarfon, lle cawsom sgwrs a ffilm a chyfle i edrych o gwmpas y ganolfan a chael paned a bara brith cyn gadael.

Mwynhawyd byrbryd i dorri'r daith yn ôl yng Nghanolfan Grefftau Corris a manteisiodd ambell un ar y cyfle i siopa rhagor!

Braf oedd cyrraedd yn ôl yn Rhiwbeina ar ôl prysurdeb y pedwar diwrnod, ond melys fydd yr atgofion am y daith hon am amser, a diau y daw galwad am drefnu taith arall y flwyddyn nesa! Beth am ymuno â ni?

***Gwilym Roberts***

# Merched y Wawr, Cangen Caerdydd

Y Prifardd Rhys Iorwerth oedd ein gwestai ym mis Mehefin. Bu'n sôn am lunio Clawdd Terfyn, ei ddilyniant o gerddi am gymhlethdod cariad sydd, meddai 'yn amhosibl ei ddehongli'. Cafodd glod aruthrol gan y beirniaid yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro y llynedd a dyfarnwyd iddo gadair yr eisteddfod honno, ac yntau ond wyth ar hugain oed.

Cawsom gipolwg ganddo ar sut newidiodd ei fywyd yn sgil y fuddugoliaeth, wrth ddod yn 'eiddo cenedlaethol' yn ôl Myrddin ap Dafydd. Rhoddodd i ni ddarlun byw iawn o'r broses lafurus o lunio cerddi a'r angen i fardd docio a chwynnu a bod yn llym ag ef ei hun. Am gyfnod maith, meddai, y cerddi yw'r unig beth ar feddwl bardd.

Eglurodd iddo ddewis mesur cynganeddol gwahanol i bob cerdd er mwyn creu naws unigryw i bob un. Dewisodd y mesur hir a thoddaid i gyfleu'r daith trên yn y gerdd Rhedeg i Baris, er enghraifft, ac englynion penrhydd yn Ar Lan y Môr am fod y berthynas rhwng y cariadon yn dod i ben.

Cawsom wybod ganddo fod y teitlau a roddodd ar y cerddi, sy'n adleisio caneuon adnabyddus, yn elfen chwareus, tafod yn y boch. Daw sawl un ohonynt o ganeuon Geraint Jarman. Yr oedd Myfanwy yn rhes flaen y gynulleidfa a hi fu'n diolch ar ein rhan am noson arbennig iawn.

***Lona Roberts***

# SALAD PELI PABO, GWRD CNAU MENYN A PHERLYSIAU

Digon i: 4-6

Paratoi: 25 munud

Coginio: 35 munud

***Cynhwysion***

1 gwrd cnau menyn canolig ei faint
70ml olew olewydd + 30ml olew o'r twbyn caws gafr Peli Pabo (neu debyg)
3 llwy de Halen Môn gyda Sbeisys Organig
Pupur du newydd ei falu
200g cwinoa
4 ewin garlleg wedi'u torri'n haenau main
3 llwy fwrdd dail saetsh ffres wedi'u rhwygo'n stribedi
3 llwy fwrdd oregano ffres wedi'i dorri'n fras
6 llwy fwrdd dail mint ffres wedi'u rhwygo'n stribedi
4 shibwnsyn, wedi'u sleisio'n fain
Sudd ½ lemwn
200g o beli caws gafr (fel Peli Pabo), blas tshili neu garlleg a pherlysiau, neu giwbiau o gaws gafr

## SALAD PELI PABO, GWRD CNAU MENYN A PHERLYSIAU DIOD MARI WAEDLYD

***Dull***

Cynheswch y popty i 200°C/marc nwy 6. Golchwch y gwrd cnau menyn, tynnu'r hadau, a'i dorri'n sgwariau tua 3cm. Taenwch y sgwariau mewn tun pobi wedi'i leinio â phapur gwrthsaim. Diferwch hanner yr olew olewydd drosto a thaenu tipyn o Halen Môn gyda Sbeisys Organig a phupur du. Rhostiwch am 20-25 munud, neu nes y bydd yn dyner.



Rhowch y cwinoa mewn sosban gyda digon o ddŵr berw a gadael iddo fudferwi am 10 munud; hidlwch trwy ogr mân. Pan fydd yn sych ond yn dal yn gynnes, rhowch y cwinoa mewn dysgl gymysgu fawr.

Cynheswch weddill yr olew olewydd mewn padell ffrio fach a ffrio'r garlleg am ryw 30 eiliad, neu nes iddo droi'n lliw euraid golau. Ychwanegwch y saetsh a'r oregano a'u troi wrth ffrio am funud; gofalwch nad yw'r perlysiau na'r garlleg yn llosgi. Arllwyswch gynnwys y badell ffrio ac olew'r Peli Pabo dros y cwinoa.

Yna, ychwanegwch y gwrd cnau menyn wedi'i rostio, y mint, y shibwns, y sudd lemon a'r Peli Pabo. Cymysgwch bopeth yn ysgafn. Profwch ef a'i sesno os bydd angen. Gweinwch yn gynnes neu ar dymheredd ystafell.

*Hoffem gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru.*

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

**Edrych am wersi**
**Clarinet ? .. Piano ? .. Organ ?**
**Theori cerddoriaeth ?**
Gwersi gan athrawon cerdd profiadol –
**Mrs Ruth Watt**, MA, BMus, LTCL
**Mr Howard Watt**, MMus, ARCO, FTCL
**Ffn: 02920 658961**
**Ffn sym: 07751 445581**



**Adeiladwr**
**GWYNDAF THOMAS**
**Builder**
~ 18 mlynedd o brofiad ~
*Ffoniwch am ddyfyniad am ddim*
**07966 315 625**
**gwyndaf10@hotmail.co.uk**

# Newyddion o'r Eglwysi

## Eglwys Y Crwys

**Bore Coffi**

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus unwaith eto pryd y codwyd £500 tuag at waith Y Cylch Cymorth yng nghartref Dr John a Non Henry Jones. Mae'r Dr John Henry a Non wedi agor eu cartref i gynnal Boreau Coffi ers 25 mlynedd a chodwyd rhai miloedd o bunnoedd tuag at elusenau lleol. Mae dyled aelodau'r Crwys yn fawr iawn iddynt am eu haelioni.

**Bedydd**

Yn ystod Mehefin bedyddiwyd Daniel Rhys, mab Iwan a Catherine Evans; brawd bach Mari ac ŵyr Aled a Barbara Evans.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Mrs Nansi Williams, Yr Eglwysnewydd, a Mrs Jennie Jones, Llanishen, a fu farw yn ystod mis Mehefin. Gwelir eu heisiau yn fawr.

Cydymdeimlir â Mrs Rhian James, Penylan, ar ei phrofedigaeth o golli ei thad yn Wrecsam.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Emyr Gruffydd ar ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Llongyfarchiadau i Gymdeithas Ddrama'r Crwys ar gyrraedd rownd derfynol Cystadleuaeth y Ddrama Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg. Bydd y ddrama 'Ar yr Erchwyn' yn cael ei pherfformio amser cinio dydd Gwener yn Theatr Fach y Maes. Pob lwc iddynt.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd Taith Gerdded 'Milltir Dros Guatemala' gan blant yr Ysgol Sul o amgylch Parc y Rhath. Codwyd tua £400. Llongyfarchiadau cynnes i'r plant a'r rhieni.

Bydd Trip y plant iau eleni yn mynd ar y tren bach ym Mharc y Mynydd Bychan.

**Cymdeithasau'r Crwys**

Mae'r gwahanol gymdeithasau wedi bod yn brysur yn paratoi eu rhaglenni ar gyfer y tymor nesaf. Bydd y Gymdeithas, o dan gadeiryddiaeth Peter Rowlands, yn cychwyn eu tymor gyda noson yng nghwmni Y Taeogion, a bydd y Gorlan, o dan gadeiryddiaeth Garwyn Davies, yn cychwyn gydag Oedfa Gymun o dan arweiniad yr Athro John Gwynfor Jones.

## Bethel, Rhiwbeina

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mrs Mary Thomas, Yr Eglwys Newydd. Bu'n ffyddlon iawn i Fethel ers iddi hi a'i diweddar briod Gareth symud i Gaerdydd o Trap ger Llandeilo. Bu am flynyddoedd lawer yn aelod ac organyddes yng Nghapel Llwyn-yr-onnen ger Castell Carreg Cennen. Cydymdeimlir yn fawr â'i merch Julie, ei mab yng nghyfraith Wyn a'r wyrion Nerys a Gareth.

## Tabernacl, Caerdydd

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Luned a Dyfrig Jones ar enedigaeth eu hail blentyn, sef Gwydion Ifan. Hefyd rhannwn lawenydd Meuryn a Julie Hughes wrth iddynt groesawu'r efeilliaid, Gethin ac Ifan.

**Cofio am Guy Fletcher**

Cawsom o gwmni Guy yn yr oedfaon a'r cyngherddau, ac ymserchodd yn yr eglwys, a'r eglwys ynddo yntau. Cofir amdano fel cyfaill didwyll a Christion ymroddedig. Bu farw'n sydyn iawn, ac fe gydymdeimlwn gyda Margaret a'i feibion yn eu hiraeth amdano.

**Cwrdd Eglwys mis Mai**

Yn ystod cwrdd Eglwys mis Mai rhannodd Marc Jon Williams adroddiad byr o'i waith hyd yma fel Ysgogydd, a diolchwyd iddo am ei lafur egnïol. Cadarnhawyd cefnogaeth y gynulleidfa i'r diaconiaid geisio rhywun i barhau gyda'r gwaith i hyrwyddo gwaith yr ifanc yn ein plith.

Hefyd, cytunodd yr eglwys i drefnu carreg briodol i'w gosod ar wal y capel yn nodi enwau gweinidogion yr eglwys hyd y presennol.

Cyflwynwyd rhodd i Illtyd Lloyd i gofnodi ei wasanaeth fel Trysorydd i'r eglwys dros yr ugain mlynedd diwethaf.

**Datganiad Organ Huw Williams**

Cawsom ddatganiad organ o'r safon uchaf ar ddydd Sadwrn, Mai 12fed, yng nghwmni Huw Williams, un o organyddion mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae Huw yn gyn-organydd Eglwys Gadeiriol San Paul, Llundain, ac ar hyn o bryd yn is-organydd y Capel Brenhinol ym Mhalas St. James's, Llundain. Perfformiwyd amrywiaeth o ddarnau heriol iawn ganddo gan gynnwys y *Chorale* rhif 3 yn A leiaf gan César Franck; y Preliwd a'r Ffiwg enwog yn A leiaf gan J.S. Bach a chynrychiolaeth deg o Gymru gyda'r Ymdeithgan boblogaidd ac effeithiol gan William Mathias. Heb os, uchafbwynt ei berfformiad oedd cyfle prin i glywed y Gyfres ar gyfer yr organ gan Maurice Duruflé. Bydd y datganiad nesaf ar ddydd Sadwrn, Medi 8fed, gyda David Soar yn perfformio. Mae David yn adnabyddus iawn fel canwr yn ogystal, ac wedi canu rhai o brif rannau unawdol gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar.

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Cathays

**Genedigaeth**

Rydym fel Eglwys yn llawenhau unwaith yn rhagor wrth groesawu babi newydd i'n plith. Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Bethan Davies ar enedigaeth Gruff Rhys Dafydd, brawd bach i Cai, ar y 31ain o Fai.

**Yr Eisteddfod**

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r cyffiniau eleni, fe fydd sawl aelod o'r Eglwys yn brysur yn ystod yr wythnos. Bydd rhai yn cynorthwyo ym mhabell fwyd Y Gorlan ar y Maes Ieuenctid, ac eraill yn helpu ym mhabell lyfrau Mudiad Efengylaidd Cymru ar y prif faes. Os byddwch yn ymweld â'r maes, beth am daro draw am baned a sgwrs – ac efallai i ddarganfod mwy am Iesu Grist?

**Clybiau**

Mae clybiau ieuenctid yr Eglwys wedi dod i ben dros gyfnod yr Haf, ond byddant yn ail-ddechrau ym mis Medi. Bydd y Clwb Iau, i blant cynradd blynyddoedd 1-6, yn cael ei gynnal ar nos Lun am 17:30 (lleoliad i'w gadarnhau). Bydd y Clwb Hŷn, i blant uwchradd, yn cwrdd yn adeilad yr Eglwys yn Harriet St., Cathays, am 19:00 ar nos Wener. Byddwn yn dosbarthu taflenni hysbysebu ar ddechrau mis Medi.

## Eglwys Dewi Sant

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Rhodri ac Emer Mears ar enedigaeth Aimee chwaer fach i Jamie. Mae hi'n wyres i Ann a Wyn Mears ac yn or-wyres i Cledan Mears. Mae'r teulu bach yn byw yn ymyl Cork yn Iwerddon.

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd y gwasanaeth fore Sul 17eg Mehefin cyflwynodd y Ficer anrheg fach i Gareth Jones i ddiolch iddo am ei ymroddiad i'r côr a'r gwasanaethau tra bu yn fyfyriwr ac yna yn gweithio yng Nghaerdydd. Mae Gareth bellach yn ddeintydd ym Mhrestatyn a dymunir yn dda iddo yn ei swydd newydd.

**Dathlu**

Ar 23 Mehefin cafwyd y cyntaf o bedwar dathliad i gofnodi 125 mlwyddiant organ yr eglwys. Daeth cynulleidfa dda iawn i wrando yn gyntaf ar gyflwyniad llafar Huw Tregelles Williams o dan y teitl 'Er Clod i'r Tad Willis' ac yna ei gyflwyniad meistrolgar o gerddoriaeth amrywiol bwrpasol i arddangos yr organ yn ei gogoniant. 'Roedd y lluniaeth ysgafn a oedd wedi ei baratoi yn glo perffaith i noson hyfryd.




## Capel Ebeneser

**Derbyn tri**

Ar fore Sul, 15 Mehefin, cafodd tri o'r ieuenctid eu derbyn yn gyflawn aelodau. A'r tri? Wel, Cai Maxwell, Ifan Gwern Jones a Gwilym Tudur. Roedd y gwasanaeth wedi'i drefnu gan y tri a chawsant gyfle i ddangos cryfder eu ffydd yn yr hyn gyflwynwyd gyda'u dewis o emynau, a darlleniadau. Cawsom weld fideo hefyd oddi ar y We fyd eang am y ffydd Gristnogol, oedd yn dangos fod pob dim yn bosib dan law Duw.

Cafwyd tystiolaeth gan y tri ac roedd Gwilym ac Ifan yn falch o'r fagwraeth a'r gofal a gawsant gan eu teuluoedd ac aelodau Ebeneser. Yn ffrind a chyd-ddisgybl i Gwilym ac Ifan y daeth Cai atom rhyw ddwy flynedd yn ôl, a braf oedd cael croesawu ei deulu ar y Sul i'w weld yn cyflwyno ei hun fel aelod o deulu Ebeneser.

Mae'r tri wedi bod yn arwain y canu fel cerddorion yn ein band mawl, Sela, ers peth amser ac yn mwynhau gwneud hynny gyda thipyn o frwdfrydedd ac arddeliad.

Un agwedd anarferol o'r gwasanaeth oedd cael cyfieithydd ar y pryd gan fod rhan o deulu Cai yn ddi-Gymraeg. Roedd eraill hefyd, sydd â chyswllt teuluol ag Ebeneser, yn cymryd mantais o'r cyfrwng hwn. Efallai daw cyfle eto yn y dyfodol i wneud defnydd o'r cyfrwng hwn ble mae modd i ni ymestyn allan. Diolch eto am eu brwdfrydedd a'u sêl.

**Cleifion**

Dymuniadau gorau i Irfon Evans, Tom Evans, Tony Ford a Rhiannon Stanley Jones sydd wedi derbyn ac yn derbyn gofal mewn ysbytai yn ddiweddar.

**Dau Ddigwyddiad**

Ar b'nawn Sul 17eg Mehefin aeth criw o'r plant i weld 'Guto Nyth Bran' yng Nghanolfan y Mileniwm. Yn dilyn oedfa fore Sul, 24 Mehefin, aeth rhai o'r plant a'u teuluoedd i gael picnic yn Sain Ffagan. Diolch bod y glaw wedi cadw draw!

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu a chyfeillion y ddiweddar Mrs Sali Evans (Rhiwbeina). Cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am ei bywyd yng nghapel Minny Street ar 19 Mehefin.


**Gweithgor Gweinidogaeth Eglwys Minny Street**

Nod y gweithgor hwn, a fu'n cyfarfod yn fisol er mis Ionawr eleni, yw hyrwyddo a sicrhau gweinidogaeth Eglwys Minny Street i'r dyfodol, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'w rannu ag aelodau'r eglwys erbyn mis Gorffennaf 2013. Gwaith y gweithgor yw hyrwyddo **gweinidogaeth yr holl aelodau**, gan ystyried sut mae ein gweinidogaeth yn gweithio yn Eglwys Minny Street, beth yw barn aelodau ein cynulleidfa am weinidogaeth yr eglwys, sut mae gwella ein gweinidogaeth, a beth y dymuna aelodau ein cynulleidfa o'r weinidogaeth. Anelir at ddarparu darlun cyflawn o weinidogaeth bresennol yr eglwys, amlygu posibiliadau'r dyfodol ac awgrymu sut mae meithrin gweithgarwch ac ymwneud ymysg rhan helaethaf yr aelodau. Meddai'r Gweinidog: '*Mae hyn oll yn gynhyrfus iawn i mi, ac rwy'n falch iawn dweud bod y gweithgor yn gweithio. Pam? Yn syml iawn, mae gan bawb ohonom, yn naturiol ddigon, ein deall ein hunain o beth yw Eglwys Minny Street, ond mae mwy i'r eglwys hon na'n deall ni ohoni, ac mae'r gweithgor yn cynnig amrywiaeth o wahanol ffyrdd o ddeall yr eglwys. O'r amrywiaeth hon daw darlun mwy cyflawn o'r hyn ydym, a'r hyn y gallem fod.*'

**Munud i ddarllen *Munud i Feddwl***

Beth am neilltuo amser i ddarllen rhai o fyfyrdodau *Munud i Feddwl* wythnosol y Gweinidog ar wefan yr eglwys? Cewch yno sylwadau difyr, treiddgar ac ysgogol ar ffydd a'r bywyd Cristnogol, hynt y byd a themâu mor amrywiol â *Rhagfarn*, *Anialwch*, *Sment* a *Sentiment*!--I ddarllen y myfyrdodau, ynghyd â holl newyddion Minny Street, ewch i www.minnystreet.org

## DINESAIR Rhif 124



### Ar Draws

1. Distryw 500 heb fod yn hen i gyd (8)
6. Mae traeth a tho yn ddi-fai (4)
8. Blin yw datrys un pôs am ben yr enfys (6)
9. Torri tresi Gwyneth gyntaf i wneud dillad (6)
10. Mwy na digon o Gymraeg efallai (10)
12. Cymysgfa yw cawl Edward bach (6)
14. 'Gwynt ar fôr a haul ar fynydd
   ------- llwydion yn lle coedydd' (tradd) (6)
15. Galw gwrach a'r pen dewin i beri cariad at yr hen wlad (10)
18. Carnedd o gopa'r dorf (4)
20. A yw lled Dai yn broblem i'r praidd? (6)
21. Ychwanegu ar yn ail yn Llandeilo (4)
22. '-------- yw clod y cledd
   A'i rwd yw ei anrhydedd' (Emrys) (8)

### I Lawr

2. 'Glanha fi ag ----- , a mi a lanheir' (Salmau) (4)
3. Cywasgu'r anllythrennog i'w gymell (5)
4. Ce'st rôl newydd o'r botel (7)
5. Elwa mae Llio wrth hel cnewyllyn yr hesg (5)
6. Ymbiliwr am bryd i ddyn (7)
7. Poenydio drwy dynnu top y car i drafaelu (8)
11. Datod a thanseilio enw da Dudley bach (8)
13. Yfed yn ddwfn ar ôl trochiad gwael (7)
14. Cant yn troi'r tir yn gymwynasgar (7)
16. 'O! Dduw rho im dy ysbryd
   Dy Ysbryd ddaw â ---- ' (D.W.) (5)
17. Perthynas i chwi bron yn etifedd (5)
18. 'Tyner yw'r lleuad -----, tros fawnog
   Trawsfynydd yn dringo ' (R.W.P.) (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Awst.

**Enillydd Croesair Rhif 122 -**

**Gaenor Hall, Bow Street, Aberystwyth**

**Atebion Rhif 122**

**Ar Draws** – 1. Llangadog; 6. Glan; 8. Teledu; 9. Eirias; 10. Tlws yr eira; 12. Brigyn; 14. Estrys; 15 . Ofergoelus; 19. Crychni; 20. Darnau; 21. Asio; 22. Efo'r grug.

**I Lawr** – 2. Ager; 3. Gwellt; 4. Drudwen; 5. Gwely; 6. Gorchest; 7. Addasrwydd; 11. Treforys; 13. Gwrychio; 14. Erlidio; 16. Onid e; 17. Serog; 18. Malu.

# Cwestiynau i Rhian Williams

**Rhian Williams sy'n creu croeseiriau'r *Dinesydd* o fis i fis, ac yn ddiweddar aeth *Y Dinesydd* i gael gair hefo hi.**

*Un o ble ydych chi'n wreiddiol?*
Un o Rydaman ble oedd fy nhad yn weinidog.

*Ble cawsoch chi eich addysg?*
Mynychais Ysgol Ramadeg Rhydaman cyn mynd i astudio Microbioleg yng Ngholeg y Frenhines yn Llundain.

*Ers pryd rydych chi'n byw yng Nghaerdydd?*
Ar ôl bod yn y Coleg dechreuais i weithio yng Nghaerdydd yn 1974.

*Beth yn union ydy'ch gwaith?*
Rwy'n gweithio yn Ysbyty Llandochau yn y Ganolfan microbacteria.

*Pryd dechreuoch chi greu croeseiriau?*
Roedd y teulu yn hoffi ateb croeseiriau a rwy'n cofio creu croesair Lladin/Cymraeg yn yr Ysgol Ramadeg!

*Beth am eich croeseiriau yn Y Dinesydd?*
Ymatebais i gais Dr. Wyn James, a oedd yn Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* y pryd hynny, am greu croeseiriau ar gyfer y papur.

*Pryd oedd hynny?*
Tua deng mlynedd yn ôl bellach a felly rwyf wedi creu bron 150 o groeseiriau ar gyfer *Y Dinesydd*.

*Beth 'dych chi'n hoffi am fyw yng Nghaerdydd?*
Mae hi'n ddinas werdd ac nid yn rhy fawr.

*Oes hoff le gyda chi yng Nghymru?*
Dwy'n hoffi ymweld â Gerddi Castell Powys.

*Pwy hoffech chi gyfarfod am sgwrs?*
Byddai'n braf sgwrsio â Bryn Terfel.

***Diolch o galon i chi Rhian am eich holl waith dros y blynyddoedd yn creu y croeseiriau yn y papur hwn.***

# Calendr y Dinesydd • Gorffennaf-Medi

**Gwener, 13 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn perfformio'r ddrama gerdd *'Sneb yn Becso Dam*, yn seiliedig ar record hir Edward H. Dafis, yn Sherman Cymru am 2.00pm a 7.30pm. Manylion pellach: ebostiwch steffanprys@urdd.org neu ffoniwch 01678-541015 neu 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Cynhadledd Undydd ar yr Anterliwt, rhwng 10.15am a 4.00pm yn Neuadd Oakdale, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Bydd darlithwyr, cantorion ac actorion yn dehongli hanes yr anterliwt yng Nghymru yn y digwyddiad hwn sy'n agored i bawb. Siaradwyr: Dr Jerry Hunter, Dr Rhiannon Ifans, Dr Ffion Mair Jones a Dr Cynfael Lake. Yn ogystal, bydd actorion dan hyfforddiant Ceri Elen Morris o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno detholiad o olygfeydd a fydd yn dod â hwyl a direidi'r dramâu gwerin hyn yn fyw drachefn. Trefnir y gynhadledd gan Adran Diwylliant y 18fed Ganrif a'r 19eg Ganrif ac Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Cymdeithas Cynfyfyrwyr Prifysgol Cymru gyda chefnogaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: a.c.lake@abertawe.ac.uk

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Noson ola'r tymor yng Nghlwb Gwawr Caerdydd i lawr yn yr Ŵyl Fwyd ym Mae Caerdydd am 8.00pm. Manylion pellach:
clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Sadwrn, 21 Gorffennaf**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Prif Ddatganiad y Dathlu, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm. Organydd: John Scott (Organydd Eglwys St Thomas, Fifth Avenue, Efrog Newydd). Mynediad: £10. Tocynnau gan Rhys Jones, Warden yr Eglwys (Ffôn: 029-2056-3834 neu 07794-897328; e-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 24 Awst**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Datganiad Awr Ginio yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, rhwng 1.15 a 2.00pm. Organydd: David Geoffrey Thomas, Cadeirlan Llandaf. Mynediad am ddim; casgliad ymadael.

**Iau, 30 Awst – Llun, 3 Medi**
Taith Flynyddol Cymdeithas Carnhuanawc: 'Y Llwybr i'r Ynysoedd'. Yn ymweld ag Inverary, Oban, Glencoe, Fort William, Glenfinnan ac ynysoedd Mull, Iona a Skye. Manylion pellach: Keith Bush (07711-551347;
keith.bush1@btinternet.com).

**Gwener, 7 Medi**
Dechrau gwersi newydd sbon TinyTalk Cymraeg ym Mhendeulwyn. Dysgwch sut i arwyddo gyda'ch baban gan ddefnyddio Iaith Arwydd Prydain trwy gyfrwng y Gymraeg. Darganfyddwch beth mae eich babi am ei ddweud wrthych cyn iddo/i fedru siarad, trwy ganu, chwarae a chael llawer o hwyl, a mwynhewch amser cymdeithasol gyda theuluoedd Cymraeg eraill wedi'r wers. Manylion pellach:
eluendw@tinytalk.co.uk, 07877-566935 neu facebook TinyTalkCymraeg.

**Dewch i ymarfer eich CYMRAEG Nos Fawrth 8 pm.**
Clwb Rygbi CWINS CAERDYDD, Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.
Eisiau ymarfer eich Cymraeg dros yr haf? Bydd grŵp anffurfiol yn cwrdd bob nos Fawrth drwy'r haf. Croeso i bob lefel. Dewch â'ch ffrindiau.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## DARLLEN LLYFRAU CYMRAEG

Prosiect a symbylwyd gan Lywydd Cenedlaethol Merched y Wawr (2010-2012) Mererid Jones, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Llyfrau yw'r Clwb Llyfrau Cymraeg. Ymgais yw i gael mwy ohonom i ddarllen llyfrau Cymraeg. Fel rhan o'r prosiect sefydlodd aelodau Merched y Wawr nifer o Glybiau Llyfrau newydd ledled Cymru.

Mae Clwb Llyfrau cangen Merched y Wawr, Bro Radur, wedi cyfarfod yn fisol yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd ers Ionawr 2011. Rydym yn ddiolchgar iawn i Carole Morgans, Llyfrgellydd Cymraeg y ddinas, am ei chymorth parod i ni. Darllenwyd a thrafodwyd llyfrau amrywiol fel **'Bydoedd' Ned Thomas; 'Pieta' a 'Barato' Gwen Pritchard Jones; 'Awr y Locistiaid' Fflur Dafydd; 'Neb ond Ni' Manon Rhys; 'Un o ble wyt ti?' Ioan Kidd**, yn ogystal â nifer o lyfrau diddorol eraill. Mae'n rhyfeddod ein bod fel cenedl fach yn gallu cynhyrchu cymaint amrywiaeth o waith llenyddol graenus. Ewch ati i brynu a darllen llyfrau Cymraeg – mae gwledd yn eich aros!

*Eirlys Davies*

**DIWRNOD TREFTADAETH Y CAPELI**

Cyfle i ddathlu pob agwedd o dreftadaeth anghudffurfiaeth yn y Cymoedd a Chymru

SIARADWYR GWADD

Noel Gibbard, Y Parchg Tudor Jones, Stephen Brewer, Susan Fielding (Henebion Cymru), Carl Llewellyn.

**DYDD SADWRN 21 07 12**

10YB TAN 3.30YP £3.00

**CANOLFAN SOAR, MERTHYR TUDFUL**

01685 722176 CROESO I BAWB

***Dewch i Sesiwn Rygbi CRCC***

Bore o fwynhau rygbi a dysgu chwarae'r gm 'TAG' i Flwyddyn Ysgol 2

Mae rygbi TAG yn gm ddigyffwrdd. Bydd pob gweithgaredd dan ofal hyfforddwyr sydd chymwysterau Undeb Rygbi Cymru.



**Medi'r 9 fed, 2012**
**10.00 - 11.00am**

Bydd oedrannau eraill CRICC, Dan 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14 a 15 yn ymarfer hefyd, ar Faes Diamond, Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.

*!Nd ac amcan CRICC yw cynnig sesiynau drwy gyfrwng y Gymraeg!*

# BWRLWM Y CYSTADLU HEINTUS!

Daeth cannoedd o blant ynghyd am ddeuddydd yr wythnos ddiwethaf i fwynhau bwrlwm rowndiau cenedlaethol cystadleuaeth llyfrau Cymraeg y Cyngor Llyfrau. Roedd Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth yn llawn cyffro wrth i 34 o dimau o bob rhan o Gymru ymgiprys am wobrau arbennig trwy drafod a chyflwyno llyfrau. **Ysgol Sant Curig, y Barri**, gipiodd y brif wobr yn y gystadleuaeth ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6.

Mae'r rowndiau cenedlaethol yn benllanw misoedd o weithgaredd ar hyd a lled Cymru, gydag oddeutu 4,000 o blant yn cystadlu am y fraint o gael cynrychioli eu siroedd yn y rowndiau cenedlaethol.



*Disgyblion o Ysgol Sant Curig, y Barri, yn ennill Tarian Dr Dewi Davies yn y gystadleuaeth ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6.*

Diwrnod Blynyddoedd 3 a 4 oedd hi ddydd Mawrth, 19 Mehefin, a bu cystadlu brwd am y brif wobr, sef Tarian Dr Dewi Davies, am Dlws Coffa Anwen Tydu, a gyflwynir am y cyflwyniad dramatig gorau, a hefyd am y wobr i'r ysgol orau am drafod llyfrau. Enillwyr y darian a'r brif wobr eleni oedd Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth, gydag Ysgol Pen Barras, Rhuthun, yn ail ac Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn, yn drydydd. Ysgol Bod Alaw ddaeth i'r brig gyda'u cyflwyniad dramatig yn seiliedig ar y gyfrol *Henri Helynt a'r Llau*, ac Ysgol Cefn Coch oedd y tîm gorau am drafod. *Tudur Budr: Jyrms* oedd y llyfr a ddewiswyd ganddyn nhw.

Dydd Mercher, 20 Mehefin, roedd Canolfan y Celfyddydau yn llawn bwrlwm unwaith yn rhagor, wrth i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 gystadlu am wobrau cyfatebol. Y tro hwn, Ysgol Sant Curig, y Barri, gipiodd y brif wobr, gydag Ysgol Treganna a Than yr Eos, Caerdydd, yn ail ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn drydydd. Yn ddiddorol iawn, roedd Ysgol Sant Curig ac Ysgol Treganna a Than yr Eos yn ailadrodd llwyddiannau 2011. Ysgol Treganna a Than yr Eos gipiodd Dlws Coffa Anwen Tydu am gyflwyniad dramatig yn seiliedig ar y gyfrol *James a'r Eirinen Wlanog Enfawr*, ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth oedd y rhai gorau am drafod llyfr. Roedden nhw wedi dewis trafod *Prism* gan Manon Steffan Ros, y gyfrol a enillodd wobr gynradd Tir na n-Og 2012.

Meddai Elwyn Jones, Prif Weithredwr y Cyngor Llyfrau, 'Mae'r cystadlaethau llyfrau cynradd yn gynllun sy'n llwyddo nid yn unig i ddenu plant at lyfrau ond yn mireinio'u sgiliau dadansoddi, trafod a dehongli, yn ogystal â chynnig llwyfan i'w talentau perfformio. Mae'r rowndiau cenedlaethol bob amser yn brysur, yn llawn bwrlwm a hwyl ond ni fyddent yn bosibl heb y gwaith caled a wneir gan drefnyddion sirol – yn llyfrgellwyr a swyddogion addysg – ac athrawon.'

Yn ogystal â bwrlwm y cystadlu, roedd yr awdur a'r darlunydd Jac Jones – sydd newydd dderbyn Tlws Mary Vaughan Jones 2012 – yn cynnal sesiynau ar y ddau ddiwrnod. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant ddysgu mwy am ei waith a'r ffordd y mae'n mynd ati i ddarlunio llyfrau plant. Roedd samplau o waith Jac yn cael eu harddangos ac roedd cyfle i'r plant brynu ei lyfrau a'u cael wedi eu llofnodi ganddo.

Nid aeth yr un plentyn a fu'n cystadlu yn ystod y dydd adre'n waglaw gan i bob un ohonynt gael cyfle i ddewis llyfr am ddim, diolch i gefnogaeth Gwasg Gomer, Gwasg Carreg Gwalch, Y Lolfa, Dalen a Chyhoeddiadau Rily.

Mae'r cystadlaethau llyfrau Cymraeg ar gyfer ysgolion cynradd wedi hen sefydlu eu hunain bellach ar galendr nifer fawr o ysgolion ar hyd a lled Cymru. Oherwydd llwyddiant y blynyddoedd diwethaf, mae'r rownd genedlaethol wedi tyfu o fod yn ddigwyddiad diwrnod i un deuddydd. Mae'r adborth a ddaw i law bob blwyddyn yn tystio i werth y gweithgaredd, nid yn unig o fewn yr ysgol ond wrth i'r disgyblion gystadlu ar lefelau sirol a chenedlaethol. Mae'r gweithgaredd yn cyfrannu at wella safon llafaredd ac mae sawl plentyn wedi dod i fwynhau darllen o ganlyniad i'r gystadleuaeth, yn ôl rhai o'r athrawon sydd wedi cymryd rhan yn y cystadlaethau.

Am ragor o wybodaeth, neu i drefnu cyfweliadau gyda'r awduron, cysylltwch â Delyth Humphreys, Pennaeth yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB. T: 01970 624151.
E: delyth.humphreys@cllc.org.uk

## Llywydd Anrhydeddus i'r Cymrodorion

Y mae Cymrodorion Caerdydd wedi penderfynu anrhydeddu un o'u cyn-Lywyddion, yr Athro John Gwynfor Jones, drwy ei wneud yn Llywydd Anrhydeddus. Cydnabyddiaeth yw hyn o'i gyfraniad sylweddol i weithgareddau'r Cymrodorion dros gyfnod maith, a'i ymroddiad diflino yn hyrwyddo diwylliant Cymreig a Chymraeg y brifddinas. Bu'n drysorydd y gymdeithas am gyfnod ac ef yw ei hanesydd swyddogol – awdur *Y Ganrif Gyntaf – Hanes Cymrodorion Caerdydd 1885-1985.*

# Her i Economi Caerdydd

**'Mae llwyddiant economi Cymru yn dibynnu ar Gaerdydd' – dyma'r gosodiad a roddwyd gerbron pobl fusnes Caerdydd yn ystod noson banel a gynhaliwyd gan Gwlwm Busnes Caerdydd yng Ngwesty'r *Holiday Inn* fel rhan o ddathliadau Tafwyl ar nos Iau, 28 Mehefin.**

Mae Caerdydd wedi bod yn llwyddiant economaidd dros y blynyddoedd diwethaf ond a oes yna waith eto i'w wneud i hybu mwy o gyflogaeth sector breifat ac i ddenu busnesau newydd?

Daeth rhyw 30 o bobl o wahanol sectorau at ei gilydd i wrando ar Eric Davies - CBI Cymru, Heledd Williams - Cardiff & Co, a Dr Martin Rhisiart - Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg yn rhoi eu safbwynt ar faint o botensial sydd i fusnesau yng Nghaerdydd a'r rhanbarth economaidd.

Yna, daeth sylwadau o'r gwesteion a chafwyd trafodaeth ddifyr ynglŷn â phwysigrwydd system drafnidiaeth lwyddiannus i sicrhau bod busnesau'n ffynnu. Codwyd y cwestiwn, a oes eisiau gwneud mwy i greu cymuned agosach rhwng Caerdydd ac ardaloedd megis y cymoedd? Neu a oes angen atyniad fel *The Eden Project* ar Gymru i ddenu pobl yma? Sut y gall ardaloedd o fewn dalgylch Caerdydd elwa o'r cyfleon?

Yn y pendraw, penderfynwyd y dylid edrych yn bositif i'r dyfodol a chydweithio i sicrhau llwyddiant i fusnes yng Nghaerdydd a thu hwnt. Yn hytrach na'u gwasgaru, dylen ni ganolbwyntio ar fuddsoddi yng Nghaerdydd - sydd â'r potensial i dyfu, ac i greu cyfoeth a chyflogaeth.



***Cwlwm Busnes Caerdydd:***
*Aelodau'r panel, o'r chwith i'r dde:*
*David Boobier - Cadeirydd Cwlwm Busnes Caerdydd, Dr Martin Rhisiart - Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg, Heledd Williams - Cardiff & Co ac Eric Davies - CBI Cymru*

# ORIEL AWST

Ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, bydd pedwar artist lleol, Huw a Luned Aaron, Joseph Galvin a Ffion Rhys, yn cyd arddangos eu gwaith celf mewn stondin a elwir Oriel Awst. Yn ogystal â'r cyfle i fwynhau gwaith gwreiddiol a phrintiadau o safon, bydd gweithdai ac arddangosiadau yn digwydd trwy gydol yr wythnos ar gyfer pob oed.

***Luned Aaron***



Un o luniau Joseph Galvin



*I ti mae'r adar yn canu* gan Luned Aaron



Enghraifft o waith Huw Aaron